| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR SAFONAU** |
| **DYDDIAD** | **11, Hydref, 2010.** |
| **PWNC** | **SAFON GWYNEDD** |
| **PWRPAS** | **GOFYN I'R PWYLLGOR YSTYRIED YR YMATEBION I'R YMGYNGHORIAD A CHYFLWYNO ARGYMHELLIAD I'R CYNGOR.** |
| **AWDUR** | **DILYS PHILLIPS, SWYDDOG MONITRO** |

1. Ar 5 Gorffennaf 2010, yn ei gyfarfod hefo cynrychiolwyr y grwpiau gwleidyddol, fe wnaeth y Pwyllgor gymeradwyo drafft o "Safon Gwynedd" at ddiben ymgynghori.

2. Atodaf i'r adroddiad hwn y ddogfen a gafodd gymeradwyaeth y Pwyllgor. Bydd aelodau'r Pwyllgor yn cofio mai diben y Safon ddogfen yw sefydlu pa ymddygiad gan aelodau sy'n dderbyniol a pha ymddygiad sy'n annerbyniol. Ni fwriedir iddi gymryd lle'r Côd Ymddygiad. Yn hytrach bwriedir iddi weithio ochr yn ochr â'r Côd Ymddygiad a llenwi'r bwlch rhwng ymddygiad sydd efallai ddim ynddo'i hun yn ddifrifol, ond sydd eto yn creu annifyrrwch rhwng aelodau'r Cyngor ac ymddygiad sy'n cyrraedd y trothwy, sydd ddigon difrifol i'r Ombwdsmon gynnal ymchwiliad iddo.

3. Pe bai'r Cyngor yn mabwysiadu "Safon Gwynedd", y bwriad wedyn fyddai i unrhyw dramgwydd gael ei drin dan drefn leol. Dilynir yr un drefn ac mae'r Cyngor wedi ei mabwysiadu ar gyfer datrys cwynion rhwng swyddogion ac aelodau.

4. Dan y drefn honno mae tri cham, sef cyngor gan y Swyddog Monitro neu ei chynrychiolydd, cyfarfod anffurfiol rhwng yr aelodau i geisio cael datrysiad ac yna (os nad oes datrysiad) gwrandawiad gerbron y Pwyllgor Safonau. Byddai gan yr aelodau (y sawl sy'n gwneud cwyn a'r sawl sy'n destun cwyn) yr hawl i ymddangos gerbron y Pwyllgor i roi eu hachos. Byddai gwahoddiad iddynt hefyd gyflwyno unrhyw ddogfennau ymlaen llaw i'w dosbarthu hefo papurau'r pwyllgor.

5. Yn dilyn y gwrandawiad gall y Pwyllgor ddod i un o dri chasgliad sef:
   a) nad oes sail i'r honiad;
   b) bod sail i'r honiad ond nad oes angen cymryd unrhyw gamau pellach;
   c) bod sail i'r honiad ac y dylid ceryddu'r aelod.

6. Yn dilyn cymeradwyaeth y Pwyllgor i'r drafft anfonwyd copi o "Safon Gwynedd" at yr holl aelodau gan wahodd sylwadau. Derbyniwyd pedwar ymateb, i gyd yn gefnogol mewn egwyddor ond gydag un yn amlygu rhywfaint o bryder am ymarferoldeb y pwynt olaf yn y Safon. Efallai fod hyn yn fater yr hoffai'r pwyllgor ei ystyried ymhellach?

7. Anfonwyd copi hefyd at yr Ombwdsmon. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad nid oedd ei ymateb i law. Adroddir yn llafar wrth y Pwyllgor ar unrhyw sylwadau fydd ganddo.

**ARGYMHELLIAD.**

8. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried yr ymatebion i'r ddogfen a chymeradwyo Safon Gwynedd i'r Cyngor llawn i'w mabwysiadu.

# SAFON GWYNEDD.

Mae'r ddogfen hon yn egluro'r safonau ymddygiad a ddisgwylir oddi wrth gynghorwyr Cyngor Gwynedd wrth ymdrin â'i gilydd. Dylid ei darllen ar y cyd hefo'r Côd Ymddygiad i Aelodau a'r Protocol Cyswllt Aelod-Swyddog. Mae'n ychwanegu at y dogfennau hynny ac nid tynnu oddi wrthynt.

Disgwylir i aelodau o Gyngor Gwynedd :-

Ymddygiad cyhoeddus:

- Ddangos parch i'w gilydd.
- Beidio â gwneud sylwadau dilornus personol am ei gilydd.
- Beidio â chyhoeddi unrhyw beth sarhaus am ei gilydd.
- Beidio â gwneud honiadau maleisus am ei gilydd.
- Beidio â chyhoeddi neu ledaenu gwybodaeth ffug am ei gilydd.
- Ddangos parch i gyfartaledd ac amrywiaeth.

Ymddygiad mewn cyfarfodydd:

- Ymddwyn yn urddasol yn y Siambr.
- Ddangos parch i'r Cadeirydd ac ufuddhau i'w ddyfarniadau.
- Beidio â defnyddio iaith anweddus na gwneud sylwadau hiliol neu sy'n rhagfarnu yn erbyn carfan o gymdeithas.

Cyfrinachedd:

- Gadw cyfrinachedd papurau eithriedig ac unrhyw ddogfennau eraill nad ydynt yn gyhoeddus.
- Beidio rhyddhau gwybodaeth gyfrinachol i'r wasg na'r cyhoedd.
- Ddychwelyd papurau cyfrinachol.
- Beidio defnyddio gwybodaeth gyfrinachol i ddibenion eraill nas bwriadwyd.

Aelodau lleol:

- Gydweithio gydag aelodau wardiau cyfagos er lles y gymdogaeth.
- Roi gwybod i'r aelod lleol os yw'n ymdrin ag unrhyw fater yn ymwneud â'i etholaeth.